

RHYBUDD o Benderfyniadau cyfarfod Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd 21 Mai 2024 am 10.30 am

Yn Bresennol: Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)
Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Neville Evans, T LI Hughes MBE, Llinos Medi, A M Jones, Carwyn Jones, G O Jones, R LI Jones, Jackie Lewis, Euryrn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Alwen Pennant Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Jeff M Evans, Douglas Massie Fowlie, Dyfed Wyn Jones, John Ifan Jones a Dafydd Rhys Thomas

Hefyd yn Bresennol: Neb

(10.30 o'r gloch yb - 11.00 o'r gloch yb)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	1. Cofnodion
PENDERFYNIADAU	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o Gyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2024 fel cofnod cywir yn amodol ar gywiriad l'r fersiwn Gymraeg o'r cofnodion a ddylai ddarllen (Eitem 8 – Cyllideb 2024/2025 - Ar ddechrau'r broses o osod y gyllideb roedd bwlich o £14.391m rhwng y gyllideb refeniw ddigyfnewid a'r cyllid oedd ar gael cyn cynyddu'r Dreth Gyngor).
ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	2. Datganiad o Ddiddordeb
DECISION	Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.
ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	4. Cyflwyno Deisebau
DECISION	Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.
ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	5. Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor 2023/24
DECISION	Amherthnasol. Dim angen am benderfyniad.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	6. Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgrwtini 2023/24
DECISION	<p>PENDERFYNWYD yn unfrydol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgrwtini ar gyfer 2023/24. • Nodi'r cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud o ran ein siwrnai ddatblygu Sgrwtini a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymarfer. • Penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn Bencampwr Sgrwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2024 a Mai 2025.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	7. Cynllun Strategol Rheoli Asedau Corfforaethol 2024-2029
DECISION	PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau ar gyfer 2024-2029.

ITEM NUMBER AND SUBJECT MATTER	8. Swyddogaeth Dewis Lleol: Perfformiad
DECISION	<p>PENDERFYNWYD:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dynodi'r Hunanasesiad Corfforaethol a'r Aseiad Perfformiad gan Banel yn swyddogaethau i'w arfer gan y Pwyllgor Gwaith. • Cytuno y bydd Aseiad Perfformiad gan Banel cyntaf y Cyngor yn digwydd yn ystod 2025. • Awdurdodi penodi Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru (CLILC) i gefnogi'r Cyngor yn ystod ei Aseiad Perfformiad gan Banel cyntaf, ar gost o oddeutu £35,000 (llai'r gost o gyd-ddylunio'r fanyleb); • Awdurdodi'r Prif Weithredwr i wneud yr holl benderfyniadau a threfniadau gweithredol, ac eithrio mewn perthynas â phenodi panel annibynnol a sefydlu cylch gorchwyl ar ei gyfer; a fydd yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith.